# Cynaeafu pysgod

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithrediadau cynaeafu pysgod, lle mae pysgod yn cael eu cludo er mwyn i bobl eu bwyta. Mae'n cynnwys paratoi cyfleusterau a chyfarpar cynaeafu yn barod ar gyfer trafod a chludo'r pysgod mewn ffordd lân. Mae'n gofyn bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn cynaeafu pysgod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud gwaith yn unol â'r gofynion perthnasol iechyd a diogelwch
2. sicrhau bod y pysgod wedi cael eu cyflyru yn barod i'w cludo
3. paratoi cyfarpar a chyfleusterau cynaeafu i hwyluso cludo a storio pysgod yn effeithiol
4. cymhwyso dulliau cynaeafu yn effeithiol mewn ffordd sydd yn lleihau straen a achosir i bysgod
5. cludo pysgod yn drugarog
6. trafod pysgod wedi eu cynaeafu mewn ffordd sydd yn cynnal ansawdd y cig
7. sefydlu pysgod yn effeithiol o fewn storfa oer
8. dilyn gweithdrefnau hylendid safle yn unol ag arfer da a deddfwriaeth hylendid
9. arsylwi ac adrodd ar bysgod sydd wedi eu cynaeafu ac amrywiadau o fanyleb cynaeafu disgwyliedig
10. ymdrin â physgod nad ydynt yn bodloni manylebau cynaeafu yn unol â gweithdrefnau'r safle
11. glanhau a storio cyfarpar cynaeafu ar ôl ei ddefnyddio
12. gwaredu gwastraff (gwaed, pysgod nad ydynt yn bodloni manylebau ansawdd) yn unol â gweithdrefnau rheoli gwastraff y safle
13. darparu gwybodaeth i gadw cofnodion i gefnogi cynaeafu yn unol â ***'r*** gofynion cyfreithiol a gofynion y safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sydd yn gysylltiedig â chynaeafu pysgod
2. y ffordd y mae deddfwriaeth berthnasol yn rheoli cynhyrchu pysgod i gael eu bwyta gan bobl
3. gofynion cyfreithiol sydd yn rheoli cludo pysgod
4. eich cyfrifoldebau eich hun yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol hylendid bwyd
5. y gofynion cludo pysgod yn drugarog, yn cynnwys y dulliau â'r technegau gwahanol a ddefnyddir
6. y ffordd y mae deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol yn rheoli gwaredu gwastraff
7. sut a pham y mae pysgod sydd wedi eu cynaeafu yn cael eu storio i gynnal ansawdd cig yn cynnwys y defnydd o rew i gyd-fynd ag amodau amgylcheddol cyffredin
8. pam y mae'n bwysig lleihau straen i bysgod wrth gynaeafu
9. pam y mae'n hanfodol i bysgod wedi eu cynaeafu fodloni gofynion cwsmeriaid a gofynion ansawdd
10. sut a pham y mae pysgod yn cael eu cyflyru er mwyn paratoi ar gyfer cynaeafu
11. y cyfarpar â'r dulliau a ddefnyddir i gynaeafu pysgod
12. sut i ymdrin â **ffactorau** sydd yn gallu amharu ar y broses gynaeafu, o fewn terfynau eich awdurdod eich hun
13. y gofynion cyfreithiol a gofynion y safle ar gyfer cadw cofnodion cynaeafu

## Cwmpas/Ystod

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn gwybod sut i ymdrin â'r **ffactorau** canlynol wrth gynaeafu:

1. newidiadau mewn amodau amgylcheddol
2. cyfarpar yn camweithredu
3. pysgod nad ydynt yn bodloni manylebau a nodir.

## Geirfa

**cyflyru** - e.e. symud bwyd, cael gwared ar weddillion, yn rhydd rhag clefydau

Cynaeafu pysgod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu5 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; cynaeafu |